ATODLEN 2

Rheolaeth ar waith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig

**1.**—(1) Mae Gorchymyn 2016 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn.

(2) Rhaid darllen erthygl 15 (derbyn ceisiadau), yn achos cydsyniad o dan adran 2 o Ddeddf 1979 (rheolaeth ar waith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig), fel pe bai'r cais yn dod gydag—

(a) un neu ragor o'r tystysgrifau a restrir ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno(**1**) wedi eu llofnodi gan neu ar ran y ceisydd; a

(b) yr eitemau a restrir yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981(**2**).

(**1**) Gwnaed diwygiadau i Atodlen 1 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 1981/1301. Mae Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001 (O.S. 2001/1438) (Cy.100) yn rhagnodi'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni perthnasol.